# JAMES, FRANK TREHARNE (1861 - 1942), cyfreithiwr, beirniad celfyddydol

**Enw:** Frank Treharne James
**Dyddiad geni:** 1861
**Dyddiad marw:** 1942
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** cyfreithiwr, beirniad celfyddydol
**Maes gweithgaredd:** Celf a Phensaernïaeth; Cyfraith
**Awdur:** Archibald Henry Lee

Ganwyd ym Merthyr Tydful. Derbyniwyd ef yn gyfreithiwr yn 1884, a bu'n Clerc Bwrdd Gwarcheidwaid Merthyr am ddeugain mlynedd. Daeth yn aelod o Gyngor Tref Merthyr yn 1904, gan barhau'n aelod hyd ei farwolaeth; ef oedd y maer am y flwyddyn 1907-08. Cafodd gomisiwn yn 3ydd Volunteer Battalion y Welch Regiment yn 1890, ond trosglwyddodd i'r Territorials yn 1907 gan ymddeol yn 1910 yn uchgapten. Bu'n gadeirydd Bwrdd D r Taf Fechan yn 1925, 1926, 1941 ac 1942. Cymerodd ddiddordeb dwfn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru fel llywodraethwr ac aelod o'r Cyngor. Yn ogystal â bod yn llywodraethwr ac aelod o Gyngor Amgueddfa Genedlaethol Cymru bu'n Gadeirydd ei Phwyllgor Celf ac Archaeoleg. Bu hefyd yn gadeirydd Pwyllgor Amgueddfa Merthyr. Anrhydeddwyd ef yn M.B.E. yn 1919. Bu farw 15 Chwefror 1942. Y mae penddelw efydd ohono gan Syr William Goscombe John yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

## Awdur

**Archibald Henry Lee**

## Ffynonellau

Gwybodaeth bersonol

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20821135

**Dyddiad cyhoeddi:** 1997

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu